# Minutes

## Cabinet

| | |
|---|---|
| Date: | Dydd Mercher, 14 Rhagfyr 2022 |
| Time: | 4.00 pm |
| Present: | Councillors J Mudd (Cadeirydd), D Batrouni, J Clarke, D Davies, Y Forsey, D Harvey, J Hughes, L Lacey and S Marshall |

1 **Ymddiheuriadau dros Absenoldeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Ni dderbyniwyd yr un.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Tachwedd 16 fel rhai cywir.

4 **Monitor Cyllideb Refeniw**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i gydweithwyr, sef y cyfoesiad refeniw canol-tymor a gyflwynwyd i'r Cabinet ac esboniodd sefyllfa'r Awdurdod a ragwelwyd fel ar Hydref 2022.

Yn erbyn cyllideb net o £343 miliwn, yr oedd y sefyllfa refeniw ym mis Hydref yn rhagweld gorwariant o £1.4 miliwn, sef llai na 0.5% o amrywiad yn erbyn y gyllideb. Yr oedd y gorwariant hwn ar ôl defnyddio'r holl arian wrth gefn yn y gyllideb refeniw o £4.7 miliwn a gynhwyswyd yng nghyllideb refeniw 2022/23, fel y cytunodd y Cabinet arni ym mis Chwefror 2022.

Er bod cryn arian wedi ei neilltuo wrth gefn yn y gyllideb ar gyfer 2022/23 er mwyn mynd i'r afael a phroblemau wedi covid, daeth problemau newydd i'r amlwg ers cytuno ar y gyllideb:

- Mae cytundeb tâl yr NJC a'r athrawon y cytunwyd arnynt am 2022/23 yn uwch na'r hyn y gwnaed darpariaeth ynddynt (ar gyfartaledd +2.4% yn uwch i'r NJC a +1% yn uwch i athrawon)
- Mwy o alw ac felly gorwariant ar gyllidebau tai yn benodol yng nghyswllt darpariaeth digartrefedd, a
- Mwy o alw mewn gofal cymdeithasol i blant yn benodol o ran costau lleoliadau.

Fel y gwelir yn yr adroddiad a'i atodiadau, ynghyd ag effaith y dyfarniad tâl, esboniwyd y sefyllfa gyfredol fel a ganlyn:

- Bu cryn orwariant mewn rhai meysydd galw allweddol a risgiau eraill yn dod i'r amlwg mewn meysydd gwasanaeth

- Gwrthweithiwyd hyn yn rhannol gan arbedion yn erbyn (i) arian wrth gefn yn y gyllideb refeniw a oedd ar gael i'r Cyngor (ii) cynllun gostyngiad treth y Cyngor a (iii) cyllidebau eraill heb fod yn rhai gwasanaeth

Yr oedd rhai o feysydd yn yr Awdurdod yn adrodd am gryn orwariant yn erbyn gweithgareddau penodol. Yr oedd a wnelo'r gorwariant hwn â meysydd gweithgaredd oedd yn cael eu harwain gan y galw, megis Gwasanaethau Cymdeithasol, ac felly yr oedd risg ymhlyg yn hyn y gallant newid petai lefelau galw yn newid o'r hyn a ragwelwyd ar hyn o bryd yn ystod gweddill y flwyddyn.

Ymysg y meysydd allweddol a gyfrannodd at y sefyllfa o £1.4 miliwn a ragwelwyd:

(i) Mwy o alw ar draws meysydd gofal cymdeithasol allweddol gan gynnwys lleoliadau plant mewn argyfwng ac allan o'r ardal. Cyfrannodd y ddwy ardal hon yn unig at orwariant o bron i £3.4 miliwn i sefyllfa gyffredinol y gwasanaeth.

(ii) Cadarnhawyd effaith dyfarniad tâl yr NJC am 2022/2. Bydd y cynnydd cyfartalog i staff y Cyngor oddeutu 6.4% o gymharu â darpariaeth o ddim ond 4% yn y gyllideb. Yr oedd hyn yn orwariant a ragwelwyd o £2.4 miliwn i staff heb fod mewn ysgolion.

(iii) Yr oedd cryn bwysau yn amlwg mewn Tai a Chymunedau, o ran digartrefedd. Rhagwelir gorwariant o £3.1 miliwn. Y prif broblemau yw:

    a. Nifer fawr yr unigolion/aelwydydd mewn llety dros dro, sy'n arwydd o barhad y sefyllfa ers cyfnod Covid.
    b. Diffyg dewisiadau o lety addas sy'n arwain at ddefnydd arwyddocaol o westai a llety gwely a brecwast, sy'n costio llawer mwy na dewisiadau mwy traddodiadol.
    c. Y cap ar y cymhorthdal Budd-dal Tai a arweiniodd at gyfran yn unig o'r costau hyn yn cael eu talu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh).

(iv) Yn ychwanegol at y risgiau hyn, daeth problemau yn ystod y flwyddyn i'r amlwg; parheir i gadw golwg fanwl arnynt. Yr oedd y rhain yn cynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig: Cludiant Addysg Arbennig ac AAA oedd yn rhagweld gorwariant o £370k oherwydd costau uwch y cwmnïau oherwydd chwyddiant, a diffyg o £186k mewn incwm o feysydd parcio. Y disgwyl oedd i'r gorwariant yn y meysydd hyn lle'r oedd risg yn ymddangos fod yn uwch na £500k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yr oedd pwysau ychwanegol yn amlwg gyda chynnal y fflyd o ganlyniad i brisiau cynyddol tanwydd yn ogystal â chostau cynnal uwch.

(v) Rhagwelwyd diffyg yn erbyn yr hyn a gyflwynwyd yn 2021/22 ac arbedion y flwyddyn flaenorol o £541k, yn bennaf oherwydd oedi cyn bwrw ymlaen â'r camau angenrheidiol. Yr oedd rhai o'r rhain yn ganlyniad i'r pandemig. Er bod lefel yr arbedion na lwyddwyd i'w gwneud yn y flwyddyn ariannol gyfredol wedi gwella a'i fod yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol, yr oedd angen o hyd i sicrhau bod yr holl arbedion yn cael eu cyflwyno, yn llawn, mor fuan ag sydd modd, a bydd y swyddogion yn parhau i weithredu i sicrhau bod hyn yn cael ei gyflwyno y cyfle cyntaf a ddaw.

(vi) Yr oedd tanwariant yn erbyn yr arian craidd wrth gefn ac arian arall wrth gefn dros dro wedi lliniaru yn erbyn gorwariant gan feysydd gwasanaeth. Dangoswyd y tanwariant a ragwelid o £4.7 miliwn yn erbyn cyllidebau heb fod yn rhai gwasanaeth. Hefyd, rhagwelwyd tanwariant o £2.3 miliwn yn erbyn cyllido cyfalaf, yn benodol ar log PFI a thros £1miliwn o arbedion a ragwelwyd yn erbyn cyllideb y cynllun gostyngiad treth cyngor.

Rhagwelwyd y byddai ysgolion yn gorwario £5.6miliwn, ac yr oedd cyfran o hyn wedi cynllunio ar ei gyfer, gan leihau arian wrth gefn yr ysgolion yn ôl y swm hwnnw. Yn ogystal ag effaith y dyfarniad tâl uwch o gymharu â'r cynnydd yn y gyllideb y caniatawyd amdano, yr oedd ysgolion yn tynnu ar wrth gefn a gronnwyd dros y ddwy flynedd a aeth heibio wrth

iddynt symud i ddal i fyny â'r ddarpariaeth neu ei gryfhau wedi effeithiau Covid a dal i fyny â gwaith gwella a chynnal a chadw.

Rhaid parhau i fonitro'r maes hwn yn gadarn, oherwydd nad oes yr un ysgolion wedi gosod cyllideb o ddiffyg, yr oedd ambell i ysgol wedi bod mewn diffyg yn ystod y flwyddyn yn dilyn effaith y dyfarniad tâl, a hyn yn cael ei adlewyrchu yn eu rhagolygon fel ysgolion unigol.

Yn gyffredinol, yr oedd y sefyllfa bresennol ar falansau'r ysgolion yn well nac yn y blynyddoedd ariannol blaenorol. Er hynny, rhaid dal i graffu ar sefyllfa pob un yn fanwl a sicrhau bod cynlluniau adfer ar gael ac yn cael eu cyflwyno, rhag i bethau lithro'n ôl. Rhaid cydbwyso hyn â cheisio osgoi sefyllfa lle gallai'r balansau fod yn ormodol, a byddai hyn felly yn ystyriaeth allweddol wrth osod cyllidebau refeniw at y dyfodol ac adolygu'r cynllun ariannol tymor-canol.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Ychwanegodd y Cynghorydd Davies nad oedd y Cabinet wedi rhagweld bod yn y sefyllfa ariannol hon, ond fod hyn wedi digwydd herwydd costau byw a chostau ynni, oedd wedi cynyddu ac wedi golygu mwy o alw am wasanaethau'r cyngor, yn ogystal â Brexit a'r pandemig. Yr oedd y rhain yn ddigwyddiadau annisgwyl, ac yr oedd y Cynghorydd Davies yn falch fod y Cabinet yn rhoi blaenoriaeth i'r Cyngor.

- Yr oedd y Cynghorydd Batrouni yn ystyried fod pwysau'r codiad cyflog wedi cael effaith ar y gyllideb; er hynny, yr oedd y staff yn ei haeddu, o ystyried eu hymdrechion dros y ddegawd ddiwethaf ac yn fwy diweddar yn ystod y pandemig.

Dywedodd yr Arweinydd hefyd, wrth symud ymlaen i ail hanner y flwyddyn ariannol, y byddai'r sefyllfa yn dal i newid, ac y byddai problemau a chyfleoedd newydd yn codi. Ar hyn o bryd, yr oedd yr hyn fyddai'n arwain at orwario unigol arwyddocaol yn hysbys, a'r gwerthoedd fyddai'n cael eu priodoli yn realistig.

Gostwng wnaeth y gorwariant yr adroddwyd amdano o gymharu â'r cyfoesiad diwethaf a roddwyd i'r Cabinet, ond er hynny, yr oedd yn dal yn achos pryder. Yr oedd yn bwysig, felly, i'r ymdrechion i adfer y sefyllfa i fod yn gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn yn parhau. I wneud hyn, gofynnwyd i wasanaethau leihau/atal gwario nad oedd yn angenrheidiol lle bynnag y bydd hyn yn bosib.

**Penderfyniad:**

Fod y Cabinet yn:

- Nodi sefyllfa gyffredinol y gyllideb a ragwelwyd, yn deillio o'r materion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn a'r potensial o fod mewn sefyllfa o orwario ar derfyn y flwyddyn ariannol.
- Cytuno y bydd y Prif Weithredwr a'r Bwrdd Gweithredol yn parhau i adolygu a herio rhagolygon meysydd gwasanaeth mewn ymdrech i reoli'r rhagolygon cyffredinol o fewn y gyllideb refeniw graidd, gan gynnwys arian wrth gefn yn y gyllideb refeniw.
- Nodi'r risgiau a welwyd yn yr adroddiad drwyddo draw ac yn sylwadau'r Pennaeth Cyllid, yn enwedig yng nghyswllt digartrefedd ac effeithiau parhaol y pandemig.
- Nodi'r rhagolygon am symudiadau yn yr arian wrth gefn.
- Nodi'r sefyllfa gyffredinol yng nghyswllt ysgolion o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, ond nodi hefyd y risgiau y gallai sefyllfa o ddiffyg godi yn y dyfodol pe nad bai cynllunio a rheoli ariannol da yn digwydd.

**Gweithredu gan**
Aelodau Cabinet / Pennaeth Cyllid / Bwrdd Gweithredol:

- Prif Weithredwr a'r Bwrdd Gweithredol i barhau i adolygu materion a arweiniodd at y sefyllfa bresennol, a, chyda'r Penaethiaid Gwasanaethau, parhau i gymryd camau cadarn

i reoli rhagolygon cyffredinol yn unol â'r cyllidebau refeniw craidd sydd ar gael, gan gynnwys arian refeniw wrth gefn.

- Trafododd Aelodau'r Cabinet ragolygon a materion ariannol yn eu meysydd portffolio, a chytuno ar gamau a argymhellwyd i'w dwyn yn ôl i fod yn unol â'r cyllidebau sydd ar gael, i'r graddau y mae hynny'n bosib.
- Penaethiaid Gwasanaethau i gyflwyno'r arbedion y cytunwyd arnynt yng nghyllideb 2022/23 a'r flwyddyn flaenorol mor fuan ag sy'n ymarferol bosib, ond erbyn diwedd y flwyddyn ariannol fan bellaf.
- Aelodau Cabinet a'r Penaethiaid Gwasanaethau i hyrwyddo a sicrhau rhagolygon cadarn ym mhob maes gwasanaeth.

5 **Cyllideb Refeniw Cyllideb Ddrafft a CATC: Cynigion Terfynol 2023/24**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad, sydd yn amlygu'r prif faterion sy'n effeithio ar ddatblygu cyllideb y Cyngor am 2023/24 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canol.

Gofynnwyd i'r Cabinet gytuno a'r cynigion fel y byddai modd cychwyn y broses ymgynghori ar gyllideb 2023/24. Byddid yn adrodd am ganlyniadau'r ymgynghoriad wrth y Cabinet yn Chwefror 2023, pan fyddwn ni fel Cabinet yn cytuno ar gyllideb derfynol fanwl a lefel treth y cyngor yn sgil hynny i'r Cyngor llawn.

Gofynnwyd i'r Cabinet wneud y canlynol:

(i) Cytuno ar y cynigion drafft i ymgynghori arnynt;
(ii) Cymeradwyo gweithredu'r penderfyniadau dirprwyedig a osodir allan yn atodiad 3 ac atodiad 11 yr adroddiad yn syth, a
(iii) Nodi'r sefyllfa o ddatblygu cyllideb gytbwys am 2023/24, a nodi y byddid yn adolygu ac yn cyfoesi'r sefyllfa rhwng nawr a'r Cabinet ym mis Chwefror pan gytunir ar y gyllideb derfynol.

Yn anffodus, y mae heriau penodol o ran paratoi'r gyllideb eleni. Nid yn unig y mae gofyniad i adeiladau ar amgylchiadau digynsail yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ond wynebir ni hefyd â newid economaidd sylweddol mewn cyfnod byr iawn o amser.

Mae'r her hon yn cael ei theimlo ledled y DU, ac y mae'r cyngor a'r trigolion yn wynebu pwysau ar raddfa nas gwelwyd erioed o'r blaen. Y mae chwyddiant uchel, cynnydd enfawr mewn biliau ynni, a mwy o alw am wasanaethau yn arwain at gryn bwysau ariannol, ac y mae'r Cyngor, yn gweld diffygion sylweddol yn y gyllideb dros y tymor byr a chanol.

Arweiniodd hyn at fwlch sylweddol yn y gyllideb o £27miliwn rhwng yr arian sydd ar gael i'w wario a'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei wario.

Er bod Datganiad Hydref Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y byddai codiadau mewn cyllid dros y ddwy flynedd nesaf, yr oedd effaith costau cynyddol yn golygu bod bwlch yn y gyllideb o hyd.

Yr oedd hyn yn wir hyd yn oed â chaniatáu am y ffaith fod Llywodraeth Cymru, ar 14 Rhagfyr, wedi cadarnhau y byddai cynnydd o 8.9% mewn cyllid craidd i'r Cyngor, oedd yn setliad gwell o gymharu â'r ffigwr dangosol am y setliad a roddwyd flwyddyn yn ôl.

Y mae'r gyfraith yn mynnu bod y Cyngor yn gosod cyllideb gytbwys bob blwyddyn. Yr oedd angen felly ystyried yr holl ddewisiadau posib i ymdrin â'r blwch yn y gyllideb o £27m yn 2023/24. Y mae hyn yn erbyn cefndir o arbedion sylweddol i'r gyllideb dros y ddegawd ddiwethaf o lymder.

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb drafft yn cynnwys buddsoddiad o £45m yn 2023/24 a £94m dros gyfnod y cynllun ariannol tymor-canol, er bod 77% o hyn i dalu am godiadau mewn tâl a chynnydd mewn chwyddiant. Soniodd yr Arweinydd yn benodol am y meysydd buddsoddi lle'r oedd yr angen fwyaf. Dymuniad yr Arweinydd oedd i'r Cyngor feddu ar yr adnoddau ychwanegol i fuddsoddi mewn llawer maes arall, ond y gwir yw nad yw hyn yn ddewis gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ni.

Y mae ysgolion yn wynebu llawer o bwysau oherwydd chwyddiant a chynnydd mewn costau. Fel y dywedwyd nifer o weithiau o'r blaen, y mae'r Cabinet wedi ymrwymo i gefnogi ysgolion a bydd yn parhau i'w gwarchod cyhyd ag y bo modd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dewis i aros am gyhoeddi'r drafft o setliad i lywodraeth leol ar 14 Rhagfyr, cyn cyhoeddi'r cynigion drafft ar gyfer ysgolion, yn y gobaith y byddai setliad mwy cadarnhaol yn hwyluso gwell gwarchodaeth.

Fodd bynnag, er bod y setliad drafft yn fwy cadarnhaol na'r hyn a ragwelwyd i ddechrau, yr oedd maint yr her ariannol a wynebwyd yn golygu nad oedd gwarchod ysgolion yn gyfan gwbl rhag yr angen i gyfrannu tuag at fwlch cyllideb y Cyngor yn 2023/24. Yr oedd y Cabinet yn cynnig felly y dylai ysgolion gyfrannu tuag at gyfran o'r pwysau a nodwyd yn eu cyswllt hwy.

O ganlyniad, byddid yn ymgynghori ar gynnig lle byddai'r Cyngor yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion i dalu am gost effaith y cynnydd yn nifer y disgyblion, a 50% o'r pwysau cysylltiedig â chyflogau. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ysgolion ysgwyddo gweddill y pwysau cyflogau ac unrhyw gostau eraill mewn costau oherwydd chwyddiant. Fodd bynnag, yr oedd hefyd yn golygu y byddai gwerth y gyllideb ysgolion yn ei chyfanrwydd yn cynyddu o gymharu â'r gyllideb bresennol.

Yr oedd y Cabinet, fel y mae yn wastad, yn awyddus i gael adborth gan ysgolion, ac anogodd gynrychiolwyr ysgolion unigol a grwpiau i gymryd rhan yn y broses ymgynghori, a rhoi eu barn am y cynigion yn y cyfarfod hwn. Yr oedd y Cabinet wedi ymrwymo i wrando ar y farn fyddai'n cael ei rhoi gerbron a rhoi ystyriaeth cyn penderfynu ar gynigion terfynol ym mis Chwefror 2023.

O ran Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd:

(i) Yr oedd y gyllideb hon yn bwriadu buddsoddi dros £4 miliwn mewn gofal cymdeithasol yn 2023/24 a bron i £5.5 miliwn dros y tymor canol i helpu i gefnogi'r rhai mwyaf bregus

(ii) Darperir £3.5 miliwn i gefnogi cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i sicrhau na fyddai neb yn cysgu allan yng Nghasnewydd, a pharhau i roi llawer iawn o gefnogaeth i gysgwyr allan yn dilyn y pandemig a dod o hyd i lety i lawer o unigolion a theuluoedd oedd mewn sefyllfa anodd. Byddai'r buddsoddiad hwn yn galluogi'r Cyngor i barhau â hyn.

Byddai manylion y buddsoddiadau yn cael eu cytuno yn y gyllideb derfynol yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Chwefror, a byddai'r Cabinet yn ystyried adborth o'r ymgynghori, gyda diddordeb arbennig mewn clywed barn am y meysydd blaenoriaeth allweddol, sef ysgolion, gofal cymdeithasol, a digartrefedd, yn ogystal ag adborth ar fuddsoddiadau penodol yn y gyllideb.

Wedi caniatáu am y buddsoddiadau a amlinellwyd uchod a'r cynnydd mewn cyllid dangosol a amlinellwyd gan LIC flwyddyn yn ôl, yr oedd bwlch sylweddol o hyd rhwng y costau a amcangyfrifwyd a'r arian oedd ar gael. Ystyriodd y Cabinet ddewisiadau ar gyfer ymdrin â'r bwlch hwn, gan gynnwys cynnydd pellach mewn Treth Cyngor ac arbedion ar draws holl wasanaethau'r cyngor.

Yr oedd y sefyllfa a'r ffigyrau a osodwyd allan yn yr adroddiad yn seiliedig ar gynnydd o 9.5% yn 2023/24. I roi'r cyd-destun, mae 9.5% yn gynnydd wythnosol o £1.55 - £2.07 i eiddo ym Mandiau A i C, sef y bandiau mwyaf cyffredin yng Nghasnewydd.

Mae'n hysbys fod treth cyngor Casnewydd yn isel o gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, gan gynhyrchu 23% o incwm y Cyngor. Y mae cyfradd gyfartalog treth y cyngor hwn 15% yn is na'r cyfartaledd Cymreig, a hyd yn oed gyda chynnydd o 9.5% y flwyddyn nesaf, byddai treth y cyngor yn dal yn is na'r rhan fwyaf (os nad y cyfan) o'r awdurdodau cyfagos, hyd yn oed petai eu cynnydd hwy yn llai.
Mae'r argyfwng ariannol parhaus yn achosi caledi ariannol a heriau i drigolion a busnesau yn y ddinas, a bydd hyn wrth galon ystyriaethau wrth gynllunio cyllideb y flwyddyn nesaf. Fel pob cyngor ledled Cymru a gweddill y DU, mae Casnewydd yn wynebu ei her ariannol ddigynsail ei hun.

Wedi caniatáu am gynnydd o 9.5% mewn Treth Cyngor, a'r hyn a amlinellwyd yn gynharach ynghylch ysgolion, erys bwlch gweddilliol yn y gyllideb. Ystyriwyd amrywiaeth o arbedion, a chytunwyd ar gyfanswm o £11.6m i'r cyhoedd ymgynghori arno.

Manylwyd am y cynigion hyn yn yr atodiadau i'r adroddiad a'u hadlewyrchu mewn adolygiad trylwyr o holl wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys swyddogaethau swyddfa gefn, a gwasanaethau rheng flaen.

Yr oedd yn bwysig pwysleisio nad proses hawdd mo hon, ac na chymerwyd y penderfyniadau a arweiniodd at y set hon o gynigion yn ysgafn.

I gloi, y mae £27miliwn yn gyfran sylweddol o gyfanswm ein cyllideb o £343 miliwn, oherwydd bod y Cyngor, fel aelwydydd, yn dal i wynebu cynnydd mewn prisiau a bod cost cyflwyno gwasanaethau yn uwch, gan effeithio ar bopeth o ysgolion i oleuo strydoedd.

Gyda dwy ran o dair o'r gyllideb yn talu am ysgolion, addysg a gofal cymdeithasol, yr oedd y Cyngor yn benderfynol o sicrhau parhau i gyflwyno gwasanaethau hollol hanfodol i'r rhai mwyaf bregus a'r sawl oedd angen help yn y cyfnod anodd hwn.

Fodd bynnag, gyda rhagolygon economaidd difrifol yn parhau, ychydig iawn o ddewis sydd gan y Cyngor. Nid y Cyngor na'r bobl y mae'n eu gwasanaethu a greodd y sefyllfa hon, ond rhaid oedd i'r Cyngor wneud y dewisiadau anodd hyn.

Yr oedd y Cabinet felly wedi ymrwymo i edrych yn fanwl ac yn ofalus ar yr ymatebion i'r gyllideb ddrafft hon wrth iddynt ffurfio'r gyllideb derfynol ym mis Chwefror.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Tynnodd y Cynghorydd Davies sylw at y ffaith fod LIC £1.2Bn yn waeth eu byd nag y buont dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac yr oedd yn ddiolchgar am y cyllid ychwanegol a'i gwnaeth yn bosib gwneud setliad i'r ysgolion. Yr ydym yn eu cefnogi ac am bwysleisio fod y Cabinet yma i wrando arnynt. Yr oedd y pwysau allweddol ar gostau staff. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at y cynnydd o 9.5% yn y Dreth Cyngor ac eisiau atgoffa trigolion fod gennym gynllun gostyngiad treth cyngor, oedd ar gael i'r sawl oedd ar lwfans cefnogi cyflogaeth, credyd pensiwn a chymorth incwm.

- Dywedodd y Cynghorydd Harvey y bu'r Cabinet yn edrych yn fanwl ar y gyllideb ers mis Medi. Dogfen ymgynghori oedd hon, ac yr oedd y Cabinet yn gwrando ar drigolion ac eisiau eu hymateb. Byddai'r Cyngor yn gwneud popeth yn eu gallu i gefnogi trigolion. Yr oedd y cyngor yn rhedeg dros 800 o wasanaethau, ond yn gwneud hyn ar adnoddau cyfyngedig iawn.

- Tynnodd y Cynghorydd Clarke sylw at y ffaith fod pethau'n anodd iawn ar hyn o bryd, ac yr oedd eisiau sicrhau trigolion Casnewydd ein bod ni yn gyngor sy'n gwrando, a'i bod yn bwysig felly clywed barn y trigolion, ac yr oedd yn gobeithio y buasent yn cymryd rhan.

- Ychwanegodd y Cynghorydd Lacey y byddai'r Cabinet yn cefnogi teuluoedd a busnesau yng Nghasnewydd ac yr oedd felly'n cefnogi'r cynnig a byddai'n croesawu sylwadau gan y cyhoedd yn ystod yr ymgynghoriad.

- Diolchodd y Cynghorydd Hughes i'r staff gofal cymdeithasol am eu gwaith caled yn ystod y cyfnod anodd hwn, ac adleisiodd sylwadau cydweithwyr fod yn rhaid i bobl Casnewydd ddod yn rhan o hyn a chyfrannu at yr ymgynghoriad.

- Dywedodd y Cynghorydd Forsey, er bod pwysau ariannol, fod y Cyngor yn gweithio i wella'r amgylchedd yng Nghasnewydd trwy'r newidiadau a gynigiwyd yn yr adroddiad.

- Ychwanegodd y Cynghorydd Batrouni fod pob cyngor yn y DU yn teimlo effaith cynnydd mewn costau byw oherwydd graddfa'r toriadau.

- Pwysleisiodd y Cynghorydd Marshall fod y Cyngor yn ymboeni am drigolion ac eisiau eu cefnogi, gan gynnwys trwy wasanaethau cymdeithasol ac addysg. Anogodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol y trigolion i fynegi eu barn, gan bwysleisio y deuwn drwy hyn diolch i waith caled staff y Cyngor.

Diolchodd yr Arweinydd i gydweithwyr yn y Cabinet am eu cyfraniadau tuag at y cynigion a amlinellwyd yn y gyllideb ac am eu cefnogaeth gyson.

**Penderfyniad:**

**1. Cytunodd y Cabinet ar y cynigion drafft a ganlyn i'r cyhoedd ymgynghori arnynt:**

i) Cynigion am arbedion y gyllideb yn Atodiad 2 (tabl o grynhoad) ac Atodiad 10 (cynigion manwl).

ii) Fel man cychwyn, byddid yn ymgynghori ar gynnydd o 9.5% yn nhreth y cyngor, sef cynnydd wythnosol o £1.55 - £2.07 i eiddo ym Mandiau A i C, y bandiau mwyaf cyffredin yng Nghasnewydd, a osodir allan ym mharagraffau 3.12 i 3.15.

iii) Ffioedd a thaliadau arfaethedig yn Atodiad 5.

iv) Buddsoddiadau'r gyllideb a ddangosir yn Atodiad 1

v) Y cynigion penodol am ysgolion a amlinellwyd yn llafar yn y cyfarfod (h.y., fod y Cyngor yn darparu cyllid i ymdrin â phwysau cysylltiedig â nifer disgyblion, a 50% o bwysau cysylltiedig â thâl).

**2. Cymeradwyodd y Cabinet:**

vi) I weithredu'r penderfyniadau dirprwyedig yn Atodiad 3 (tabl o grynhoad) ac Atodiad 11 (cynigion manwl) gan y Penaethiaid Gwasanaethau yn syth, yn dilyn prosesau penderfynu arferol y Cyngor.

**3. Nododd y Cabinet:**

vii) Y sefyllfa o ran datblygu cyllideb gytbwys am 2023/24, gan nodi y byddai'r sefyllfa yn destun adolygu a chyfoesi cyson rhwng nawr a'r Cabinet ym mis Chwefror pryd y byddid yn penderfynu ar y gyllideb derfynol.

viii) Y sefyllfa bresennol o ran datblygu 'Cynllun Trawsnewid' i'r Cyngor a sylwadau'r Pennaeth Cyllid am bwysigrwydd hynny yng nghyswllt yr her yn y tymor canol/hir i'r gyllideb a chyfrannu at sefyllfa ariannol gynaliadwy i wasanaethau.

ix) Fod angen mwy o waith yn benodol i adolygu a rheoli agweddau ariannol rhai risgiau allweddol yn 2023/24.

## 6 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ac Ychwanegiadau

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet, oedd yn rhoi trosolwg o'r cyllidebau cyfalaf wedi eu cyfoesi am y flwyddyn ariannol hon a gweddill cyfnod y rhaglen gyfalaf, ochr yn ochr â'r rhagolwg am y sefyllfa fel ar Hydref eleni.

Dyma ail adroddiad monitro cyfalaf blwyddyn ariannol 2022/23.

Yr adroddiad diwethaf a dderbyniwyd gan y Cabinet oedd adroddiad monitro ac ychwanegiadau mis Gorffennaf, a oedd, ynghyd â'r sefyllfa gyffredinol o ran monitro, yn crybwyll yr ymarferiad a wnaed gan y swyddogion i adolygu'r proffil gwariant a ragwelwyd ar gyfer pob cynllun, gyda'r nod o sicrhau adrodd cyllideb gychwynnol fwy realistig am y flwyddyn.

Bu nifer o ychwanegiadau a newidiadau i'r rhaglen ers hynny, gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud ag ychwanegu cynlluniau penodol a gyllidwyd â grantiau. Cyfanswm y rhain oedd £8.512m, ac y mae manylion amdanynt yn Atodiad A, ac y maent yn cael effaith ar draws sawl blwyddyn ariannol, gyda £6.996m yn cael ei ychwanegu i 2022/23 yn unig. Gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo'r ychwanegiadau hyn i'r rhaglen.

Effaith net yr ychwanegiadau a'r newidiadau hyn oedd cynyddu cyfanswm y gyllideb am 2022/23 i £88.4m.

Yn erbyn y gyllideb ddiwygiedig o £88.4m yn 2022/23, rhagwelwyd gwariant o £71.1m.

Yr oedd yr amrywiad hwn yn cynnwys £17.1m o lithriad a £191k o "wir" danwariant a gorwariant net.

Gofynnwyd yn unig i'r Cabinet nodi'r llithriad cyfredol a ragfynegwyd, yn hytrach na chymeradwyo llithriad yn y cyfnod hwn o'r flwyddyn. Yn hytrach, byddai llithriad yn cael ei nodi ym mhob adroddiad monitro, a dim ond yn adroddiad terfynol y flwyddyn y byddai gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cyfanswm i'w drosglwyddo i'r blynyddoedd i ddod.

Yr oedd nifer o gynlluniau oedd yn rhagweld ffigyrau llithriad uchel, gan gynnwys Ysgolion Band B, y Bont Gludo, a'r Ganolfan Hamdden.

Amlinellodd yr adroddiad hefyd y sefyllfa bresennol o ran cyfalaf, sef:
- £57k o gyfleuster benthyca
- £1.525m o wariant cyfalaf wrth gefn nas ymrwymwyd
- £1.474m o dderbyniadau cyfalaf nas ymrwymwyd

Yr oedd balans yr hyn oedd ar gael yn cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau a adlewyrchwyd eisoes yn y Rhaglen Gyfalaf, yn ogystal â chyllid ychwanegol darpariaethol i ddwyn cyfanswm cyllid cyffredinol Band B i £90m ond nid oedd wedi ei gynnwys ar hyn o bryd yn y rhaglen gyfalaf. Cyfanswm y cyfalaf oedd ar gael felly oedd £1.789m.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Diolchodd y Cynghorydd Batrouni i'r staff cyllid am gadw'r rhaglen gyfalaf yn gyfoes, o ran chwyddiant a'r pandemig.

**Penderfyniad:**

Fod y Cabinet yn

1. Cymeradwyo’r ychwanegiadau i’r Rhaglen Gyfalaf y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad (Atodiad A).
2. Nodi’r sefyllfa o ran gwariant cyfalaf a ragwelwyd am 2022/23.
3. Nodi’r adnoddau cyfalaf sydd weddill, a’r defnydd a glustnodwyd ar ei gyfer.

## 7 Adroddiad Rheoli'r Trysorlys

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad cydymffurfio i gadarnhau bod y gweithgareddau Trysorlys yn cyd-fynd â’r Strategaeth Trysorlys a ystyriwyd ac a osodwyd gan yr Aelodau.

Ei bwrpas oedd rhoi gwybod i’r Cabinet am weithgareddau trysorlys a wnaed yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2022 tan ddiwedd Medi 2022 a chadarnhau, (ac eithrio am fod yn agored i amrywiadau mewn cyfraddau llog), y parheir i gadw at yr holl ddangosyddion trysorlys a darbodus.

Cyflwynwyd yr adroddiad i’r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio a’i gadarnhau ganddynt i’w ystyried gennym ni yn y Cabinet, a’r Cyngor yn y pen draw.

Yr oedd yr adroddiad yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Atgoffa am y strategaeth trysorlys y cytunwyd arni
- Manylion am weithgaredd benthyca a buddsoddi
- Ystyriaethau economaidd ehangach, e.e., y pandemig, hinsawdd economaidd
- Cyfoesiad ar god Rhyngwladol y Trysorlys ar gyllid buddsoddi masnachol
- Gorffen gydag archwiliad o weithgaredd yn erbyn perfformiad, gan gadarnhau cydymffurfio

O ran yr agwedd fenthyca, amlygodd yr adroddiad fod benthyca, fel ar 30 Medi 2022, yn £140.6m, gostyngiad o £1.5m o gymharu â lefelau 2021-22 levels.

Yr oedd y gostyngiad hwn wedi ei achosi yn bennaf gan ein benthyciadau Rhanddaliadau Cyfartal y Prifswm (EIP), oedd yn talu’r prifswm yn ôl dros einioes y benthyciad (ac o’r herwydd yn denu llai o gostau llog), fel dewis arall yn lle ein benthyciadau aeddfedu lle’r ad-delir y prifswm ar ddiwrnod olaf y benthyciad.

Dywedodd y swyddogion wrth y Cabinet, wrth i gyfraddau llog godi, mae’n debyg y bydd ein benthyciadau LOBO (Cynnig sawl sy’n rhoi benthyg cynnig y sawl sy’n benthyca) yn cael eu galw i mewn. Ystyr hyn yw bod y sawl sy’n rhoi benthyg yn gofyn am newid cyfraddau y cyfleusterau hyn tuag i fyny, a’r benthyciwr (y Cyngor) naill ai’n derbyn y gyfradd uwch neu yn ad-dalu’r ddyled. Ni wnaed unrhyw geisiadau o’r fath yn hanner cyntaf 2022-23, ond petaent yn cael eu gwneud yn ail hanner y flwyddyn, oni fyddai digon o gymhelliant i dderbyn y newid yn y gyfradd llog, yr oedd y swyddogion yn rhagweld y byddai benthyca mwy traddodiadol yn cymryd eu lle yn y man.

Y mae’r rhagolygon gwariant cyfalaf cyfredol yn golygu peth llithriad, felly nid oedd disgwyl y byddai angen cymryd mwy o fenthyciadau tymor-hir yn y flwyddyn ariannol hon, er nad oedd hynny’n cau allan ystyried benthyca allanol petai’r sefyllfa yn fanteisiol fel ffordd o warchod er mwyn rheoli risgiau cyfraddau llog, gan gydnabod fod rheidrwydd ar y Cyngor o hyd i fenthyca yn y tymor hwy. Byddai unrhyw benderfyniad i wneud hyn yn cael ei wneud yn unol â chyngor gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor ac yn unig lle byddai budd ariannol clir o wneud hynny.

O ran buddsoddiadau, yr oedd lefel y buddsoddiadau ar 30 Medi yn £50m, gan ostwng o £8.2m ers canlyniad 2021-22, wrth i ni ddefnyddio adnoddau o’r fath fel dewis mwy cost-effeithiol i drefnu benthyca allanol newydd.

Rhagwelwyd y byddai lefelau buddsoddi yn parhau i ostwng yn ystod 2022/23 fel dewis yn lle benthyca nes i ni yn y pen draw gyrraedd isafswm balans o £10m, fyddai'n dal i gael ei fuddsoddi er mwyn cydymffurfio â MiFIDII. (Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol a Deilliadau).

Yr oedd y farchnad yn disgwyl i gyfraddau llog ddechrau dychwelyd i lefelau mwy traddodiadol yn chwarter olaf 2022-23, ac felly yr oedd yn synhwyrol osgoi gwneud unrhyw benderfyniadau am fenthyca tymor-hir yn y tymor byr tra bod cyfraddau yn uwch na'r hyn fyddai'n debygol y flwyddyn nesaf.

Yr agwedd hon oedd conglfaen benthyca mewnol effeithiol, a hyd yn oed mewn amgylchedd o gyfraddau llog yn cynyddu, yr oedd cost benthyca o'r newydd yn dal yn ddrutach nac unrhyw elw cynyddol ar fuddsoddiadau, felly yr oedd yn dal yn synhwyrol i ni ddefnyddio'r balansau arian dros ben oedd gennym eisoes fel dewis yn lle trefnu benthyca newydd.

Yr agwedd olaf i'r Cabinet ystyried oedd y Dangosyddion Cynghgorus. Y mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli pa mor agored ydyw i risgiau rheoli trysorlys trwy ddefnyddio gwahanol ddangosyddion sydd i'w gweld yn Atodiad B. Cadarnhaodd yr adroddiad fod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio â'r Dangosyddion Cynghorus a osodwyd am 2022/23, ac eithrio am un metrig penodol a fwriadwyd i amlygu'r risg i lefelau llog a dderbynnir o fuddsoddiadau petai cyfraddau llog ar y cyfan yn disgyn o 1%.

Esboniodd y swyddogion yn yr adroddiad mai pwrpas y dangosydd arbennig hwnnw oedd amlygu o faint yr oedd y Cyngor yn cyllidebu y byddai lefelau incwm yn dioddef o unrhyw gwymp mewn cyfraddau llog. Yr oedd y gwyriad yn fwy arwyddocaol na'r targed am i lefel y buddsoddiadau fod yn uwch, a chrëwyd argraff ffug oherwydd bod cyfraddau llog yn codi ar hyn o bryd. Ond petaent yn dychwelyd i lefelau hanesyddol (nad oedd yn cael ei ragweld yn y tymor byr), ni fyddai risg o hyd i gyllid y Cyngor yn y flwyddyn ariannol hon, oherwydd bod mwy o incwm na'r disgwyl yn dod o logau. Yr oedd y swyddogion yn ymwybodol y byddai angen cadw llygad barcud ar y risg wrth nesáu at 2023/24, os bydau lefelau buddsoddi a chyfraddau llog am ostwng.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Batrouni at y newyddion diweddar fod cyfradd chwyddiant yn America yn is na'r hyn yr oedd y marchnadoedd wedi ragweld, gan arwain at dybiaeth y byddai cyfraddau llog yn gostwng. O ran strategaeth benthyca tymor byr, yr oedd yn ymddangos y gallai pethau newid yn 2023 o gofio maint yr ofnau am ddirwasgiad posib. Byddai'n ddoeth felly gwneud y mwyaf o fenthyca mewnol yn awr ac edrych ar fenthyca tymor hir wrth i Brydain geisio hybu ei heconomi.

**Penderfyniad:**

Nododd y Cabinet yr adroddiad ar weithgareddau rheoli trysorlys yn hanner cyntaf y cyfnod 2022-23 a rhoi sylwadau am yr adroddiad i'w cynnwys yn yr adroddiad wedi hynny i'r Cyngor.

8 **Diweddariad am y Gofrestr Risg Gorfforaethol**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i roi cyfoesiad am Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor am ddiwedd Chwarter dau (1 Gorffennaf hyd 30 Medi 2022).

Gofynnwyd i aelodau'r Cabinet ystyried cynnwys yr adroddiad hwn a pharhau i fonitro'r risgiau hyn a'r camau a gymerwyd i ymdrin â'r risgiau a nodwyd yn yr adroddiad.

Yr oedd Polisi Rheoli Risg y Cyngor a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn galluogi'r weinyddiaeth hon a'r swyddogion i nodi, rheoli a monitro yn effeithiol y risgiau hynny fyddai'n

atal y Cabinet rhag cyrraedd ei flaenoriaethau strategol ac i gyflawni ei ddyletswyddau statudol fel awdurdod lleol.

Byddai'r adroddiad risg Chwarter dau hefyd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio'r Cyngor ym mis Ionawr 2023 i adolygu prosesau rheoli risg y Cyngor a'r trefniadau llywodraethiant.

Ar derfyn chwarter dau, yr oedd gan Gyngor Casnewydd 42 risg wedi eu cofnodi ar draws unarddeg maes gwasanaeth y Cyngor.

Mae'r risgiau y tybir fel y rhai mwyaf arwyddocaol i gyflwyno Cynllun Corfforaethol a gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu rhoi ar Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor i'w monitro.

Ar derfyn chwarter dau, cofnodwyd 14 risg ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.
- Wyth Risg Difrifol (15 i 25);
- Chwe Risg  Mawr (saith i 14);

O gymharu â chwarter un, nid oedd unrhyw risgiau newydd a/neu rai a godwyd, a chaewyd dau risg.

Yr oedd deg risg ar yr un sgôr ag yn chwarter un.

Cynyddodd sgôr tri risg, ac aeth un i lawr ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Gyda sgôr risg wedi codi o 20 i 25, yr oedd cryn alw ar wasanaethau cymdeithasol Cyngor Dinas Casnewydd ac yn y chwarter olaf, yr oedd Gwasanaethau Plant  Casnewydd wedi gorfod rhoi mesurau ar waith i reoli'r cynnydd yn nifer yr achosion a gyfeiriwyd o'u canolfan ddiogelu.

Yr oedd pwysau hefyd ar y staff, rheoli eu lefelau salwch a recriwtio i swyddi gwag.

Yr oedd y gwasanaeth yn gweithio er mwyn sicrhau blaenoriaeth o'r rhai oedd fwyaf bregus ac yn wynebu risg, a hyn trwy asesiadau risg a sicrhau bod gwasanaethau statudol yn cael eu cyflwyno.

Cynyddodd sgôr risg Cyllideb Tymor-Canol y Cyngor o 12 i 20, fel y crybwyllwyd eisoes yn y Cabinet, oherwydd bod y Cyngor yn wynebu bwlch cyllideb sylweddol yn ei Gynllun Ariannol Tymor-Canol.

Yr oedd Adroddiad Cyllid y Cabinet a chyflwyno cynigion y gyllideb yn dangos y camau y mae'r Cyngor yn gymryd i adnabod arbedion ar draws meysydd gwasanaeth er mwyn lleihau effaith y bwlch cyllideb.

Byddai Cyngor Dinas Casnewydd yn ymgynghori â'r cyhoedd ar gynigion y gyllideb ac yn ystyried yr adborth gan y cyhoedd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol yn y Flwyddyn Newydd.

Y mae effaith bosib seibr-ymosodiadau yn dal yn amlwg; gostyngodd y sgôr risg o 16 i 12. Trwy gydol y flwyddyn, bu gwasanaeth TG Cyngor Casnewydd (dan arweiniad y Cyd-Wasanaeth Adnoddau) yn cynnal profion, yn monitro ac yn adrodd am ymosodiadau ar systemau'r Cyngor.
Yr oedd gan y Cyngor fesurau i reoli seibr-ymosodiadau ac i reoli unrhyw achosion o dorri systemau, gan gynnwys hyfforddiant i staff ac aelodau.

Fel y nodwyd yn risg cyllideb Tymor Canol y Cyngor, cafwyd effaith hefyd ar ysgolion ledled Casnewydd, gyda'r sgôr risg yn cynyddu o naw i 12 oherwydd pwysau chwyddiant, ac yr

oedd mwy o risg y byddai rhai ysgolion mewn sefyllfa o ddiffyg erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Yr oedd y Cyngor yn gweithio gydag ysgolion a'u cyrff llywodraethol i adnabod a chefnogi ysgolion a allai fod yn wynebu anawsterau ariannol a rhoi'r camau angenrheidiol ar waith i liniaru'r effeithiau.

Ar derfyn chwarter 2, ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, cytunodd y Cyngor i gau dwy risg, pandemig Covid-19 a risg trosi wedi gadael yr UE.

Yr oeddem yn cydnabod fod Covid yn dal i gael effaith ar y trigolion ac y mae ein tîm Argyfyngau Sifil ynghyd a phartneriaid mewn Iechyd a Llywodraeth Cymru yn dal i fonitro ei effaith ar draws cymunedau a gwasanaethau allweddol.

Y mae llawer o wasanaethau yng Nghyngor Dinas Casnewydd bellach yn rheoli ei effeithiau trwy AD cyson, a threfniadau busnes fel arfer iechyd a diogelwch.

Rhoddwyd y gorau i drefniadau argyfwng Aur rhanbarthol a lleol i adlewyrchu'r sefyllfa hon.

Cytunwyd felly i gau'r risg hon ar derfyn Chwarter 2.

Ers i'r Du adael yr Undeb Ewropeaidd, y mae llawer o'r trefniadau sydd ar waith y tu hwnt i reolaeth Cyngor Casnewydd i raddau helaeth.

Fel rhan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr ydym yn parhau i roi ein sylwadau ac ymateb i unrhyw newidiadau yn y dyfodol i drefniadau wedi gadael yr UE wrth iddynt ymddangos.

I ddinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghasnewydd, yr ydym wedi ymrwymo o hyd i gefnogi'r cymunedau hynny a'r trigolion y byddai croeso iddynt o hyd i fyw yng Nghasnewydd. Mae ein tîm Cydlynu Cymunedol a phartneriaid eraill yn parhau i gefnogi dinasyddion yr UE gydag unrhyw gyngor a chyfarwyddyd, ac yn dal i ddathlu a hyrwyddo'r manteision y mae gwahanol ddiwylliannau yn roi i Ddinas Casnewydd.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Soniodd y Cynghorydd Davies am y tair risg gysylltiedig ag Addysg, a thra byddent yn dal yn oren, byddai'r Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnal yn gweithio'n galed gyda'r tîm ysgolion gan y byddai effaith y gyllideb yn rhoi pwysau mawr ar ysgolion, yn enwedig ar leoliadau allsirol. Yr oedd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar ysgolion. Yr oedd yn bwysig felly canolbwyntio ar gadw'r risg o hyn yn isel. Yr oedd yr Aelod Cabinet hefyd yn adleisio sylwadau'r Arweinydd fod croeso i bawb yn ninas Casnewydd fel dinas noddfa.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Marshall at wasanaethau ar y cyd, ac mewn cyfarfodydd briffio gyda gwasanaethau oedolion, byddai'r Cabinet yn dal i ganoli ar fannau lle gellid lleihau'r risg bob cyfle a geid.

- Yr oedd y Cynghorydd Hughes yn cefnogi'r sylwadau am wasanaethau oedolion, a hefyd fater cydlynu cymunedol, gan ddweud ei fod wedi ymweld â marchnad gymunedol Hwngaraidd yng Nghasnewydd, a gweld fod eu plant yn siarad Cymraeg a'u bod wedi ymgartrefu yng Nghasnewydd, a bod eu diwylliant wedi cael effaith gadarnhaol. Yr oedd yn bleser eu gweld yn dathlu eu diwylliant.

**Penderfyniad:**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys y cyfoesiad am chwarter dau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

9 **Cynllun Lles Gwent**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad oedd yn rhoi'r newyddion diweddaraf i aelodau am Gynllun Lles Gwent 2023-28, gan geisio sylwadau gan y Cabinet fel rhan o'r broses ymgynghori statudol.

Yr oedd gofyniad statudol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i Gyrff gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu cynllun lles fyddai'n gosod allan amcanion sut i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd i gyfrannu at gyrraedd y saith Nod Llesiant Cenedlaethol

Ym mis Gorffennaf 2021 cytunwyd y dylai'r pump BGC lleol, gan gynnwys UnCasnewydd, uno i ffurfio BGC Gwent, a thrwy hynny gryfhau trefniadau partneriaeth ar draws y rhanbarth. Yr oedd y cynllun lles felly wedi ei seilio ar asesiadau angen ar draws Gwent gyfan, gan gynnwys chwe ardal leol Casnewydd

Fel cadeirydd partneriaeth UnCasnewydd, a ddaeth yn grŵp cyflwyno lleol, byddai'r Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r holl bartneriaid i gyflwyno amcanion y cynllun terfynol yn rhanbarthol a lleol

Dangosodd dadansoddiad mo'r asesiadau angen y tair thema allweddol yr oedd ein trigolion am eu blaenoriaethu, wedi eu grwpio dan yr amcanion drafft isod o'r ymgynghoriad:

- Yr ydym eisiau creu Gwent deg a chyfartal i bawb
- Yr ydym eisiau creu Gwent sydd â chymunedau cyfeillgar, diogel a hyderus
- Yr ydym eisiau creu Gwent lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei warchod a'i wella er mwyn cael y manteision lles mwyaf a rydd natur i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol

Tynnodd yr Arweinydd sylw cydweithwyr y Cabinet at bob un o'r amcanion drafft a'r camau cysylltiedig.

Caeodd y cyfnod 12-wythnos statudol o ymgynghori ar y cynllun drafft ar 31 Rhagfyr, ac wedi hynny byddai'n cael ei newid, a chyflwyno fersiwn derfynol i'r Cyngor i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu ym mis Chwefror 2023.

Byddai'n rhaid i bob sefydliad arall sy'n bartneriaid hefyd gytuno i'r Cynllun, ac y mae cytuno i gynllun terfynol BGC Gwent i ddigwydd ganol Ebrill 2023, a'i gyhoeddi ym Mai 2023.

Ochr yn ochr â hyn, yr oedd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid UnCasnewydd a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu'r cynllun gweithredu lleol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol cymunedau ledled y ddinas.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Paratôdd y Cynghorydd Batrouni ddau gwestiwn i'r Arweinydd am ba feysydd eraill y gallai cynghorau Gwent wella gwasanaethau. Yng ngoleuni hyn, gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol a oeddem yn rhannu data, neu ddadansoddiad manwl o batrymau, neu ragolygon at y dyfodol gyda'n partneriaid, a pha gamau oedd yn cael eu cymryd i gyrraedd yr amcanion. Rhoddwyd enghraifft, sef lleihau tlodi plant: dan bennawd rheoli perfformiad, crybwyllwyd sut yr oeddem yn gwneud cynnydd, ond nid oedd dim wedi ei nodi dan hyn, a theimlai'r Aelod Cabinet fod hwn yn bwynt allweddol ddylai gael ei gwblhau. Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd fod hyn wedi ei grybwyll yng nghyfarfod Partneriaeth UnCasnewydd y diwrnod cyntaf, a bod y blaenoriaethau angen eu pwysleisio. Yr oedd yr amcan drafft cyntaf, sef creu Gwent deg a chyfartal, yn

ymrwymiad uchelgeisiol iawn i'r holl bartneriaid ar draws BGC Gwent. Yr oedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Athro Syr Michael Marmot i edrych ar anghydraddoldeb gydol oes, oedd yn cael ei fonitro a'i gofnodi i weld sut y gellid gwella hyn. Yr oedd yn bwysig fod hyn yn cael ei gyflwyno, nid yn unig ledled Gwent ond yng Nghasnewydd. Yr oedd Partneriaeth UnCasnewydd yn gryf iawn, ac yr oedd yr aelodau yn awyddus i sicrhau ein bod yn cyflwyno'r hyn sy'n iawn i Gasnewydd. Yr oedd pum maes ymyriad, gyda pherfformiad yn cael ei fonitro yn eu herbyn. Yr oedd yn bwysig i ni gydnabod gwerth y data hwn, a phwysleisiwyd rôl partneriaid eraill y sector cyhoeddus megis Prosiect Jigsaw sy'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân a Chyngor Dinas Casnewydd. Mae hyn yn help i ni adnabod cartrefi bregus ledled Casnewydd a Sir Fynwy, ac yn dangos cystal y mae partneriaethau yn gweithio a sut y gallai hyn wneud gwahaniaeth.

- Yr oedd y Cynghorydd Hughes yn cydnabod gwaith y sefydliad partneriaeth. Dylid cael amcanion nid yn unig ar gyfer y cynllun lles ond i gymdeithas gyfan. Yr oedd yn uchelgeisiol, ac yn edrych ymlaen at yr hyn y gallai ac y dylai cymunedau fod. Yr oedd yr amcanion yn glodwiw ac yr oedd modd eu cyrraedd, gan wneud gwelliannau i'r gymuned. Diolchodd yr Arweinydd i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol am ei waith gyda'r Bwrdd Partneriaeth Lleol.

**Penderfyniad:**

Bod y Cabinet yn:

a) Adolygu a derbyn y drafft o Gynllun Lles Gwent i ymgynghori arno
b) Argymell y fersiwn derfynol i'r Cyngor ar 28 Chwefror 2023 i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu

10 **Cyd-fenter Norsaidd**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad yn amlygu'r bartneriaeth a grëwyd rhwng Casnewydd Norse yn 2014 fel menter ar y cyd rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a grŵp Norse, cwmni gwasanaethau cyhoeddus ym mherchenogaeth Cyngor Swydd Norfolk.

Yr oedd y bartneriaeth yn darparu gwasanaeth Rheoli Eiddo a Chyfleusterau integredig, ac yn cynnwys gwasanaethau proffesiynol megis rheoli a dylunio stadau; cynnal adeiladau, rheoli eiddo a glanhau, gyda chefnogaeth llafurlu uniongyrchol.

Tymor cychwynnol y contract oedd deng mlynedd, yn dod i ben ym Mehefin 2024, gyda'r cyfle i'w ymestyn am hyd at ddeng mlynedd. Rhaid cymryd unrhyw benderfyniad o'r fath erbyn 30 Rhagfyr 2022.

Yr oedd hyn yn gyfle i adolygu'r trefniant ac ystyried gofynion y dyfodol.

Cyflwynodd gwaith y Cyngor gyda Norse amrywiaeth o fanteision i'r Cyngor a'r gymuned yn ehangach. Cynhyrchodd y bartneriaeth gryn wariant yn lleol gyda chyflenwyr yn ardal cod post NP, ac y mae Norse yn cyflogi tua 320 o staff gan gynnwys prentisiaid a hyfforddeion.

Yr oedd Norse Casnewydd yn rheoli amrywiaeth o asedau adeiledig i Gyngor y ddinas gyda chyfanswm gwerth yr asedau yn rhyw £320m. Y mae'r Gydfenter Norsaidd yn 'siop un stop' i'r holl wasanaethau eiddo, ac yn gweithredu fel Landlord Corfforaethol y Cyngor', gan sicrhau fod polisïau'r Cyngor yn cael eu dilyn a bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i asedau eiddo.

Yr oedd y bartneriaeth yn destun adroddiadau craffu blynyddol, yn fwyaf diweddar ym mis Tachwedd 2022. Yn y cyfarfod, nodwyd y cynnydd cadarnhaol a wnaed, er bod materion a godwyd yn cynnwys y cytundeb gwasanaeth a phwyslais ar werth cymunedol a

chymdeithasol ehangach. Yr oedd hyn yn cyd-fynd â dyheadau Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor i roi gwerth cymdeithasol wrth graidd ein gweithgareddau.

O ystyried y gwaith sylweddol a wnaed gan Norse Casnewydd, y risgiau a'r manteision posib ar derfyn y bartneriaeth, yr oedd yr adroddiad yn cynnig ymestyn y contract presennol am gyfnod byr, gyda gwell manteision ariannol, fyddai'n caniatáu amser i adolygu'r model cyflwyno.

Byddai hyn hefyd yn rhoi cefnogaeth i raglen o resymoli asedau fel sy'n cael ei osod allan yn ein Cynllun Corfforaethol ac yn ystyried sut y cawn y budd cymunedol mwyaf o unrhyw drefniant yn y dyfodol.

**Penderfyniad:**

Cytunodd y Cabinet i ymestyn y Cytundeb Gwasanaeth gyda Chydfenter Norsaidd tan 31 Rhagfyr 2025 yn amodol ar gytuno ar well manteision ariannol ac adolygu'r model cyflwyno a gofynion y dyfodol.

11 **Cynllun Ariannol y Gronfa Integreiddio Ranbarthol**

Yr eitem nesaf ar yr agenda a gyflwynwyd gan yr Arweinydd oedd adroddiad yn amlinellu'r rhwymedigaethau ariannol yn deillio o'r cynnig i leihau Cronfa Integreiddio Ranbarthol Gwent, gan ddisgrifio sut y sefydlwyd y gronfa fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu i arwain a chefnogi trawsnewid mewn gofal cymdeithasol ac iechyd ar draws y sector cyhoeddus.

Sefydlwyd y Gronfa Integreiddio Ranbarthol fel rhaglen bum-mlynedd i greu newid cadarnhaol ac arloesedd er mwyn gwella gwasanaethau i'n dinasyddion mwyaf bregus. Yr oedd cyfanswm y Gronfa Integreiddio Ranbarthol  yr un fath am y pum mlynedd gyfan, ond y cynnig oedd ei lleihau er mwyn rhyddhau arian bob blwyddyn i brosiectau newydd tra bod prosiectau a gyllidwyd yn flaenorol yn cael eu prif-ffrydio.

Fodd bynnag, yr oedd y gronfa yn olynydd i raglenni blaenorol a gyllidwyd gan grantiau y Gronfa Gofal Integredig.

Yr oedd llawer o'r rhaglenni yr arferid eu cyllido gan y Gronfa Gofal Integredig ac a gyllidir yn awr gan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol yn hanfodol er mwyn parhau i gyflwyno gofal cymdeithasol yn ddiogel i wasanaethau plant ac oedolion.

Ymysg rhai o'r amryfal wasanaethau a gefnogir gan y gronfa y mae gwasanaethau ymyriad cynnar i bobl â dementia, cefnogaeth i ofalwyr di-dâl, gofal Gwarcheidwaeth Arbennig a gwelyau camu i fyny / camu i lawr.

Y mae llawer o'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u rhedeg yn rhanbarthol, ond y mae gwasanaethau ar gyfer ein trigolion ni yn unig yn derbyn cyfanswm o £2,049,655 mewn Cyllid Rhanbarthol Integredig. Yn 2023/2024, blwyddyn gyntaf y lleihau, bydd yn rhaid i ni sicrhau £396,719 er mwyn cynnal y gwasanaethau presennol.

Yr oedd cydweithwyr yn y Cabinet yn cefnogi'r uchelgais i allu parhau i gyflwyno arloesedd a sicrhau bod gwersi cadarnhaol yn rhan allweddol o gyflwyno ein gwasanaethau. Byddai'r cynnig i leihau'r cyllid yn raddol yn fecanwaith i ryddhau carian grantiau wedi treialu modelau newydd fel cynlluniau peilot.

Gwaetha'r modd, byddai'r newid yn y rhagolygon ariannol  yn golygu y byddai mabwysiadu'r lleihau graddol yn golygu diwedd ar wasanaethau allweddol gan na fyddai modd i ni eu cyllido o gyllidebau eraill.

Y mae pob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn rhoi ystyriaeth i'r trefniadau lleihau graddol presennol a'r heriau y mae model o'r fath yn gynrychioli. Y mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent yn ceisio barn y partneriaid er mwyn dod i gytundeb.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Soniodd y Cynghorydd Hughes, sy'n cynrychioli'r Cabinet ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent, fod Casnewydd yn dal wedi ymrwymo i amcanion y GIR a'r cynnydd sylweddol a wnaed eisoes. Yr ydym eisiau gweld newid trawsnewidiol yn digwydd ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er budd dinasyddion Cymru, Casnewydd a rhanbarth Gwent. Bu cryn newidiadau economaidd ers sefydlu'r gronfa, oedd wedi dod a heriau o ran gweithredu'r lleihau. Yr ofn oedd y byddai hyn yn tanseilio'r galwadau craidd ac elfennau o'r ddarpariaeth. Bydd lleihau'r arian yn raddol yn 2023/24 yn cael effaith ar wasanaethau craidd ac yn rhoi mwy o heriau ar gyllideb y gwasanaethau cymdeithasol. Agwedd allweddol o'r adroddiad oedd bod y cynnig i leihau mewn perygl o danseilio ein llwyddiannau hyd yma. Yr oedd yr Aelod Cabinet yn croesawu ymdrechion yr AS i ddod o hyd i ateb. Yr oedd Tîm Arweinyddiaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn ail-drafod ac yn ceisio adolygu amodau'r grant ac yr oedd yr Aelod Cabinet yn cefnogi penderfyniad y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ac yn argymell mai dyma fyddai'r safbwynt i ni ei gymryd fel Cyngor at y dyfodol. Yr oedd teimlad unfrydol ym Mwrdd Rhanbarthol Gwent, yr awdurdodau lleol a'r Bwrdd Iechyd, ac yr oedd yr Aelod Cabinet felly'n cefnogi'r argymhellion a wnaed.

**Penderfyniad:**

Fod y Cabinet yn :

a) Ystyried rhwymedigaethau ariannol ac oblygiadau'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol a'r model o leihau'r cyllid yn raddol.
b) Yng ngoleuni'r heriau ariannol sylweddol y byddai'r trefniadau lleihau arfaethedig yn osod ar yr Awdurdod Lleol, fod y Cabinet yn cefnogi arweinwyr y BPR i geisio adolygu amodau'r grant.

12 **Adroddiad Blynddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Yr eitem nesaf ar yr agenda a gyflwynwyd gan yr Arweinydd oedd Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Yr oedd gan y Cyfarwyddwr Strategol, fel y Cyfarwyddwr dynodedig dros Wasanaethau Cymdeithasol, ddyletswydd statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 ac fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Cyngor.

Rhaid i'r adroddiad osod allan asesiad personol ein Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyni ei swyddogaethau gofal cymdeithasol yn ystod y 12 mis a aeth heibio.

Yr oedd yr adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod 2021 i 2022 ac wedi ei osod allan yn y fformat a nodwyd dan y canllawiau.

Gwahoddodd yr Arweinydd y Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol i ddweud ychydig o eiriau.

Crybwyllodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol waith caled y staff oedd yn dal i roi gwasanaeth i ddinasyddion bregus ar waethaf yr amgylchiadau heriol. Dylem ymfalchïo yn ein cydweithwyr a'r gwaith maent yn wneud. Diolchodd y Cyfarwyddwr Strategol i'r Arweinydd am y cyfle i siarad.

Yn ystod y cyfnod hwn, yr oedd y Cyngor wedi gweld ailstrwythuro ein tîm Uwch-reoli a phenodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol parhaol. Wrth gwrs, effeithiwyd yn enfawr ar gyflwyno gofal cymdeithasol yn 2021 2022, yn gyntaf gan covid a chyfyngiadau'r pandemig, ac yn fuan wedyn, problemau costau byw.

Ychwanegodd yr Arweinydd hefyd fod staff ar draws yr holl Wasanaethau Cymdeithasol yn parhau i roi'r rhan fwyaf o'u darpariaethau wyneb yn wyneb, er yn manteisio ar weithio hybrid mewn rhai meysydd allweddol. Yr ydym yn parhau i ddysgu a gwella arferion o ran y dull hwn o weithio.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Nododd y Cynghorydd Hughes mai adroddiad ôl-weithredol oedd hwn, a dymunodd ymddeoliad hapus i Chris Humphries. Yr oedd gan y gwasanaethau cymdeithasol dîm rheoli eithriadol oedd yn cwrdd â heriau'r pandemig yn ogystal â'r newidiadau strwythurol. Y mae'r maes gwasanaeth yn dal i gadw trigolion Casnewydd yn ddiogel, ac yr oedd yr Aelod Cabinet felly'n teimlo bod yr adroddiad hwn yn amlygu eu rhagoriaeth. Byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn dal i wynebu mwy fyth o alwadau, ac yr oedd y staff yn glod i'r ddinas. Diolchodd y Cynghorydd Hughes hefyd i'r Cynghorydd Cockeram, y cyn-Aelod Cabinet, yn ogystal â Sally-Ann Jenkins, y Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol gan gydnabod ei gwaith caled a'i chyfraniad i bob rhan o'r ddinas.

- Diolchodd y Cynghorydd Marshall i'r Arweinydd am y gefnogaeth ariannol ychwanegol o ran y newidiadau a ddigwyddodd adeg yr adroddiad. Teimlai'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol fod yr Arweinydd yn iawn i dynnu sylw at y mentrau arloesol yn y gwasanaeth, megis y gwaith Babi a Fi, oedd yn arfer da yng Nghasnewydd. Yr oedd yr adroddiad yn glir, mawl, agored a thryloyw, a diolchodd i'r Cyfarwyddwr, y rheolwyr a'r holl staff am eu parodrwydd i helpu eraill yn ystod covid, gan sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal, tra'n dal i arloesi.

Diolchodd yr Arweinydd i'r holl staff am eu gwaith caled a'u gofal cyson.

**Penderfyniad:**

Fod y Cabinet yn:

a) Nodi adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.
b) Gwneud sylwadau am gynnwys adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

13 **Adroddiad Pwysau Allanol**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad uchod, sef ymateb y Cyngor i'r pwysau allanol oedd yn cael effaith ar eu gwasanaethau.

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r effaith economaidd ehangach ar lefel y DU a Chymru ers cyflwyno'r adroddiad diwethaf i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2022.

Yr oedd y sefyllfa yn heriol, ac y mae'n bwysig i bawb gydweithio gyda phartneriaid er mwyn gallu cynnal ein trigolion mwyaf bregus gymaint ag y gallwn.

Yr oedd cymunedau ledled Casnewydd yn wynebu pwysau ariannol digynsail oherwydd cynnydd mewn chwyddiant ym mhrisiau ynni, bwyd, morgeisi, rhent a chostau eraill i aelwydydd.

Yn ychwanegol at hyn, yr oedd y sector cyhoeddus gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, busnesau, elusennau a mudiadau nid-am-elw hefyd yn wynebu costau cynyddol ac yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd o ran y gwasanaethau a ddarperir ac yn pasio'r costau hyn ymlaen i'r cwsmer. Rhagwelir y bydd mwy o heriau yn y gaeaf, a mwy o effaith ar gymunedau a busnesau.

Diolchodd yr Arweinydd i'r staff am eu gwaith caled cyson. Y mae Casnewydd yn ddinas noddfa a byddai'n rhoi cefnogaeth i'r sawl fydd ei angen.

Yr oedd gan Gasnewydd hanes maith o groesawu pobl oedd yn chwilio am nodded, ac y mae'n parhau i gynnig lle diogel i'r sawl sy'n ffoi rhag rhyfel ac erledigaeth, ac y mae'r Cyngor yn llawn gefnogi cynlluniau Llywodraethau'r Du a Chymru i roi nodded ddiogel.

Yr oedd hyn, fodd bynnag, yn rhoi mwy o alw ar wasanaethau'r Cyngor ac yn enwedig ar y stoc tai preifat a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Yr oedd trigolion oedd yn cael anhawster felly'n cael eu hannog i gysylltu â'r Cyngor a fyddai'n darparu cymorth a chefnogaeth i bobl dalu eu biliau a cheisio eu hatal rhag mynd i drafferthion ariannol.

Yr oedd gweithio gyda phartneriaid yn bwysig i gyrraedd y nod hwn. Fel Cadeirydd UnCasnewydd, yr oedd yr Arweinydd yn hyderus am y partneriaethau cryf ledled y ddinas, ac y mae ymrwymiad ac ymroddiad yr holl bartneriaid i wneud popeth yn eu gallu yn galonogol, fel y gwelwyd mewn uwch-gynhadledd costau byw ym mis Tachwedd, a gynhaliwyd gan yr Arweinydd.

Byddai swyddogion yn parhau i hwyluso digwyddiadau cymunedol ledled y ddinas gydag amrywiaeth o bartneriaid er mwyn rhoi cyngor a chyfarwyddyd arm y gefnogaeth sydd ar gael o ffynonellau lleol a chenedlaethol, a byddant yn parhau i gefnogi mentrau Llywodraeth Cymru gan gynnwys mannau cynnes a chymorth i hawlio'r hyn sy'n ddyledus

-
<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Soniodd y Cynghorydd Davies am waith caled y gwirfoddolwyr oedd yn mynd â bwyd i'r rhai hynny yng Nghasnewydd oedd mewn angen. Gwnaeth y Cynghorydd Spencer Siôn Corn arbennig i blant yn ei ward. Diolchodd yr Aelod Cabinet i ysgolion yng Nghasnewydd am weithio'n galed yn ogystal ag am ddarparu talebau bwyd ar gyfer prydau ysgol.

- Soniodd y Cynghorydd Clarke ei fod ef a'r Arweinydd wedi ymweld ag Eglwys y Santes Fair ym Malpas ac wedi helpu gyda lapio anrhegion Nadolig. Yr oedd yn wych gweld y gwirfoddolwyr yn cefnogi'r gymuned, oed dyn gwneud i rywun deimlo'n wylaidd. Diolchodd yr Aelod Cabinet hefyd i'r gwirfoddolwyr yng Nghasnewydd.

- Ychwanegodd y Cynghorydd Harvey fod y fyddin o wirfoddolwyr yng Nghasnewydd yn rhoi cefnogaeth eithriadol. Soniodd yr Aelod Cabinet dros Les Cymunedol am y staff yng Nghasnewydd oed dyn gweithio mor galed ac yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gofynnir iddynt wneud.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Hughes at y modd y daeth Caerllion at ei gilydd i gefnogi elusennau lleol, gan grybwyll yr hwb yng Nghaerllion lle gallai pobl ddod i dderbyn gwybodaeth ariannol. Y mae gwaith gwirfoddol yng Nghasnewydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ledled y ddinas.

**Penderfyniad:**

Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ar weithgaredd y Cyngor i ymateb i'r ffactorau allanol oedd yn effeithio ar gymunedau, busnesau a gwasanaethau cyngor Casnewydd.

14 **Rhaglen Waith**

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

I dderbyn y rhaglen a gyfoeswyd.

**Penderfyniad:**
Cytunodd y Cabinet ar y Rhaglen Waith.

The meeting terminated at Time Not Specified